**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd

7 Gorffennaf 2023

Annwyl Lesley

Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Safonau Cynnyrch Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) Drafft 2023

Yn ein cyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023 gwnaethom drafod eich llythyr dyddiedig 30 Mehefin am eich bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Safonau Iechyd y Cyhoedd, Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) Drafft 2023.

Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth ac eglurhad ynghylch rhai materion.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i’r cwestiynau yn yr Atodiad cyn gynted â phosibl ac erbyn 31 Gorffennaf 2023 fan bellaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Cwestiwn 1: Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod wedi cael llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon, yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i'r Rheoliadau hyn. A allwch gadarnhau pryd yr ysgrifennodd yr Arglwydd Benyon atoch. Yn eich llythyr atom ar 2 Rhagfyr 2022, gwnaethoch ymrwymo i gynnwys dyddiad yr ohebiaeth â Gweinidogion y DU mewn llythyrau at Bwyllgorau'r Senedd.

Cwestiwn 2: A fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth berthnasol â'r Arglwydd Benyon gyda ni. Unwaith eto, yn eich llythyr atom ar 2 Rhagfyr 2022, gwnaethoch ddweud y byddech yn ceisio darparu copïau o ohebiaeth gyda Llywodraeth y DU i Bwyllgorau priodol y Senedd.

Cwestiwn 3: Gwnaethoch ddweud wrthym bod y Rheoliadau yn croestorri â pholisi datganoledig. A ydych wedi gwneud asesiad o'r rhaniad wedi datganoli/wedi cadw'n ôl? Os felly, a allwch roi manylion am yr asesiad hwnnw.

Cwestiwn 4: A wnaethoch chi ystyried cyflwyno eich Rheoliadau eich hun i ymdrin â materion o fewn cymhwysedd datganoledig?

Cwestiwn 5: A allwch gadarnhau y cymerwyd y prosesau fframwaith cyffredin perthnasol wrth ddatblygu'r Rheoliadau hyn.

Cwestiwn 6: Ysgrifennodd Llywodraeth yr Alban at Senedd yr Alban ar 22 Mehefin 2023 yn nodi pecyn o bum Offeryn Statudol sy'n gweithredu rhannau o Fframwaith Windsor. Cyfeirir at y Rheoliadau yr ydych wedi ysgrifennu atom yn eu cylch fel NID/014 yn llythyr Llywodraeth yr Alban. Y Rheoliadau eraill yw: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu) 2023 - (NID/011); Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023 – (NID/012); Fframwaith Windsor (Gorfodi etc.) Rheoliadau 2023 – (NID/013); Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023 - (NID/015).

Mae'r llythyr gan Lywodraeth yr Alban i Senedd yr Alban yn nodi: "*NID/011, NID/012 and NID/015 are subject to negative procedure. DEFRA plan to lay NID/011 in Westminster on 8 August 2023 and NID/012 and NID/015 on 30 August 2023. NID/014 is currently subject to draft affirmative procedure but we have been informed by DEFRA that it will likely be changed to the negative procedure, and we therefore propose to treat it as such for consent purposes. It is due to be laid on 17 July 2023 under affirmative procedure, but may be laid in August under negative procedure. NID/013 is subject to draft affirmative procedure and is due to be laid on 17 July 2023*." Yn benodol ar NID/014, mae Llywodraeth yr Alban yn nodi yn ei llythyr: "*The SI is currently subject to the draft affirmative procedure and is due to be laid on 17 July 2023, to come into force on 1 October 2023. However, the instrument may become subject to the negative procedure if the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill gains Royal Assent before the proposed laying date*."

Caiff y Rheoliadau sy'n destun eich llythyr eu gwneud o dan adran 8C(1) o *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* (Deddf 2018) ac yn gwneud diwygiadau i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir (RDEUL). Cyn i *Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023* (Deddf 2023) ddod i rym, byddai rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os ydynt yn diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol neu'n cadw prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE (paragraff 8F(2)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018). Ar ôl i adran 9 o Ddeddf 2023 ac Atodlen 3 iddi ddod i rym, mae'r cyfeiriad at brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir wedi'i ddileu o baragraff 8F(2)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018, sy'n golygu nad oes angen gweithdrefn gadarnhaol mwyach ar gyfer rheoliadau o'r fath.

a. A yw Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu atoch ynghylch y pedair set arall o Reoliadau y cyfeirir atynt fel NID/011, NID/012, NID/013, ac NID/015 yn llythyr Llywodraeth yr Alban?

b. Os nad yw Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu atoch am y Rheoliadau eraill, pa gamau y byddwch yn eu cymryd yn awr?

c. Os yw Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu atoch ynghylch y Rheoliadau eraill, pam bod eich llythyr dyddiedig 30 Mehefin yn cyfeirio at Reoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Safonau Iechyd y Cyhoedd, Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 (NID/014) yn unig?

d. A oeddech yn ymwybodol o'r amseriadau ynghylch y Rheoliadau sy'n destun eich llythyr?

e. A oeddech yn ymwybodol y byddai Deddf 2023 yn golygu na fyddai'r Rheoliadau sy'n destun eich llythyr yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol mwyach?

Cwestiwn 7: A ydych yn ymwybodol o ddeddfwriaeth weithredu bellach sy'n cael ei pharatoi i roi Fframwaith Windsor ar waith ac fel y disgrifir yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith? Os felly, a allwch roi manylion, gan gynnwys amseriadau.